GWASANAETH LLYSOEDD EI MAWRHYDI
hmcs
HER MAJESTY'S COURTS SERVICE

EX**301**

Yn gwneud hawliad? Ambell gwestiwn i chi ofyn i chi'ch hun

Mae'r daflen hon yn awgrymu ambell gwestiwn y dylech ofyn i chi'ch hun cyn gwneud hawliad (a elwir yn 'cychwyn hawliad') mewn llys sirol. Bydd yr atebion i'r cwestiynau'n help i chi benderfynu a fydd hi'n werth i chi fynd i'r llys ai peidio.

Oes rhaid i mi wneud hawliad? Oes yna unrhyw opsiynau eraill heblaw'r llys?

Tan yn ddiweddar, os oedd gennych chi broblem gyfreithiol, byddech yn fwy na thebyg wedi mynd i lys neu dribiwnlys ar gyfer yr hyn a elwir yn aml yn 'ymgyfreitha'. Er bod hon yn parhau i fod yn ffordd gyffredin o ddatrys problemau o'r fath, mae pobl yn aml yn teimlo bod mynd i lys yn broses ddrud sydd hefyd yn gallu achosi straen.

Erbyn heddiw, mae nifer o ffyrdd eraill o ddatrys cwynion a phroblemau cyfreithiol, gan gynnwys camau fel cyflafareddu, cyfryngu a chynlluniau ombwdsmyn. Gelwir y rhain yn aml yn gynlluniau'dull amgen o ddatrys anghydfod'.

> Mae rheolau'r llys yn gofyn eich bod yn ystyried a fyddai dull amgen o ddatrys anghydfod yn ffordd well o daro cytundeb cyn mynd i'r llys. Os ydych chi'n gwrthod ystyried hyn, mae'n bosib na chewch eich costau'n ôl, neu gall y llys orchymyn eich bod yn talu costau'r parti arall, hyd yn oed os ydych chi'n ennill yr achos.

Fe allai hi fod yn fuddiol i chi ddarllen y daflen wybodaeth 23, Alternatives to Court, a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gan fod hon yn esbonio'r cynlluniau hyn yn fwy manwl, sut maen nhw'n gweithio a phryd y cewch chi eu defnyddio. Gallwch gael copi o'r daflen yn rhad ac am ddim gan www.legalservices.gov.uk neu gallwch ei gweld ar y rhyngrwyd yn www.clsdirect.org.uk

Pam ddylwn i ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod yn lle mynd i lys?

Nid nod cynlluniau amgen yw disodli llysoedd. Ond fe allent fod yn fwy manteisiol na mynd i lys. Mae'r manteision yn cynnwys:

- bod yn fwy hyblyg;
- datrys eich problem yn gynt;
- bod yn llai o straen; a
- chostio llai o arian i chi.

Os oes gennych chi broblem reolaidd â rhywun (cymydog, er enghraifft) neu sefydliad yr ydych yn delio â nhw, gallai proses amgen megis cyfryngu esgor ar ateb gwell a thymor-hwy i'ch problem.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfryngu drwy gysylltu â Llinell Gymorth Cyfryngu Cenedlaethol ar 0845 60 30 809 neu drwy ymweld â'r wefan www.nationalmediationhelpline.com

Sut ydw i'n penderfynu pryd i ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod?

Mae sut y byddwch yn penderfynu datrys eich problem yn dibynnu ar:

- y canlyniad rydych chi eisiau ei gael;
- yr hyn y gallwch ddisgwyl ei gael;
- sut rydych chi eisiau mynd ati i ddatrys eich problem; a
- pha mor barod yw'r parti arall i geisio datrys y broblem.

Trwy fynd i'r llys, fe allech chi gael:

- gorchymyn fod rhywbeth yn cael ei wneud neu ei atal;
- iawndal; neu
- ddyfarniad gan y llys am bwy sy'n iawn a phwy sydd ddim.

Trwy ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, fe allech chi gael:

- cytundeb ynglŷn â dyled
- newid yn y ffordd y mae person neu sefydliad yn ymddwyn;
- addewid na fydd person neu gwmni yn gwneud rhywbeth;
- cael rhywbeth sy'n eiddo i chi wedi ei drwsio;
- cael rhywbeth newydd yn lle rhywbeth sy'n eiddo i chi;
- ymddiheuriad;
- esboniad o'r hyn a ddigwyddodd i chi;
- camgymeriad a gywirwyd; neu
- iawndal (er enghraifft, am anaf).

Ar ôl darllen taflen wybodaeth 23 gan y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (gweler uchod), os ydych chi'n credu y byddai'n well i'ch achos gael ei drin mewn llys, darllenwch ymlaen.

Pam mynd i'r llys?

Os na allwch chi setlo'ch anghydfod drwy unrhyw ddull arall, efallai y penderfynwch chi gychwyn hawliad drwy'r llys sirol. Os oes gennych fynediad at y rhyngrwyd, gallwch ymweld â www.moneyclaim.gov.uk am ffordd syml, gyfleus a diogel o wneud hawliad. Cewch gychwyn hawliad am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys:

- bod ar rywun arian i chi
- gwaith o safon isel;
- difrod i eiddo;
- damweiniau ar y ffordd;
- anaf personol;
- nwyddau heb eu cyflenwi; a
- nwyddau diffygiol.

Mae'r llysoedd sirol yn ymdrin â phob un o'r mathau hyn o hawliad. Weithiau, fe glywch chi bobl yn sôn am y 'llys hawliadau bychain'. Yr hyn maen nhw'n sôn amdano mewn gwirionedd yw'r drefn arbennig a ddefnyddir i ymdrin â hawliadau llai mewn llys sirol.

Cynlluniwyd y drefn ar gyfer trin hawliadau llai yn y 'trac hawliadau bychain' i fod yn gyflym, yn rhad ac yn hawdd ei defnyddio. Ond dim ond ar gyfer hawliadau am £5,000 neu lai (neu £1,000 neu lai os yw'r hawliad am anaf personol neu ddiffyg atgyweirio tai) y gellir defnyddio'r drefn hon wrth hawlio gan unigolyn, ffyrm neu gwmni yng Nghymru neu Loegr. Mae gan Lysoedd yr Alban eu trefn gyfreithiol eu hunain.

Gan amlaf, ymdrinnir â hawliadau am dros £5,000 yn y 'trac cyflym' neu'r drefn 'amldrac'.

Mae taflenni sy'n esbonio mwy am ddyrannu hawliadau i'r trac hawliadau bychain, y trac cyflym a'r amldrac, a sut y cânt eu trin, ar gael yn rhad ac am ddim o unrhyw swyddfa llys sirol neu ar ein gwefan www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Os ydw i'n penderfynu mynd i lys, ddylwn i geisio setlo'r hawliad?

Er y gallech chi ddewis mynd i lys yn hytrach na defnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod (gweler uchod), cychwyn hawliad ddylai'r opsiwn olaf fod, bob tro. Bydd y llys yn disgwyl i chi fod wedi gweithredu'n rhesymol, megis cyfnewid gwybodaeth a dogfennau perthnasol am yr anghydfod ac ymdrechu'n gyffredinol i osgoi'r angen am wneud hawliad. Er enghraifft, os oes ar rywun arian i chi, gallech chi ysgrifennu llythyr at y sawl sydd mewn dyled. Dywedwch faint sydd arnyn nhw i chi ac am beth, a pha gamau rydych wedi'u cymryd eisoes i gael yr arian yn ôl. Dylech gynnwys rhybudd y byddwch chi'n cychwyn hawliad yn y llys sirol oni bai eu bod nhw'n talu'r ddyled erbyn y dyddiad a nodwch chi. Weithiau, bydd y rhybudd hwn yn ddigon i'w hannog i dalu heb i chi orfod mynd i'r llys. Cadwch gopi o'ch llythyr ac unrhyw ateb.

Dyma enghraifft o'r math o lythyr y gallech ei anfon.

2 Gerddi'r Gwanwyn
Unrhywdref
AO6 3BX

11 Ebrill 2005

Annwyl Mr Gwyn,

Fe ddaethoch i drwsio fy mwyler gwres canolog ar 6 Ionawr. Fe ffoniais i chi ar 7 Ionawr ac unwaith eto ar 10 Ionawr i ddweud nad oedd yn dal i weithio'n iawn.

Fe addawsoch y byddech yn galw i'w drwsio ond ddaethoch chi ddim. Bu'n rhaid i mi gael rhywun arall i alw i'w drwsio ar 26 January ac fe gostiodd hynny £157 +TAW i mi

Gofynnais i chi dalu'r arian ar 2 Chwefror am mai chi ddylai fod wedi gwneud y gwaith hwn.

Dydych chi ddim wedi talu'r arian i mi.

Os na wnewch chi dalu'r arian i mi erbyn 19 Ebrill 2005, bwriadaf gychwyn hawliad llys sirol yn eich erbyn.

Yr eiddoch yn gywir

Mrs O Gwyllt

Beth ydy'r protocolau cyn-gweithredu?

Mae nifer o anghydfodau, gan gynnwys anaf personol, clefyd neu salwch, esgeulustod proffesiynol, diffyg atgyweirio cyflwr tai, difenwi neu adeiladwaith a pheirianneg, lle ceir rheolau llys sy'n dweud wrthych pa gamau y dylech eu cymryd cyn cychwyn hawliad. Gelwir y rhain yn 'brotocolau cyn-gweithredu'. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y protocolau hyn ar wefan yr Adran Materion Cyfansoddiadol www.dca.gov.uk/civil/procrules_fin/menus/protocol.htm.

Ydw i'n debygol o gael fy arian?

Mae'n bwysig ystyried a yw'r unigolyn, y ffyrm neu'r cwmni rydych chi'n hawlio arian ganddynt yn debygol o allu talu. Os ydyn nhw'n:

- ddi-waith;
- yn fethdalwyr; neu
- os nad oes ganddyn nhw arian eu hunain;
- os nad oes ganddyn nhw eiddo personol na dim byd arall o werth sy'n eiddo iddyn nhw (megis car) nad yw ar log neu dan gytundeb hur bwrcas neu les
- os ydyn nhw wedi rhoi'r gorau i fasnachu; neu
- os oes ganddyn nhw ddyledion eraill i'w talu,

efallai na fydd y llys yn gallu'ch helpu chi i gael eich arian. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallech gael eich arian petaech chi'n fodlon derbyn taliadau bach fesul tipyn dros gyfnod o amser.

Os yw'r unigolyn neu'r cwmni'n fethdalwr, go brin y cewch chi'ch arian. Gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Methdaliad (Insolvency Service) yn 21 Bloomsbury Street, Llundain WC1B 3SS (ffôn 020 7637 1110). Bydd rhaid i chi ddweud wrthyn nhw beth yw enw llawn yr unigolyn neu'r cwmni a'u cyfeiriad diwethaf. Byddan nhw'n dweud wrthych chi a yw'r unigolyn yn fethdalwr, neu a yw'r cwmni yn wynebu 'datodiad gorfodol', sef bod y cwmni wedi rhoi'r gorau i fasnachu ac felly'n annhebygol o fod ag arian neu asedau eraill.

Os yw'r sawl rydych chi'n hawlio arian ganddo/i eisoes wedi'i d/ddwyn i'r llys eisoes gan bobl eraill, ond heb dalu, go brin y cewch chithau eich arian 'chwaith. Gallwch gael gwybod a oes gan unigolyn, ffyrm neu gwmni mewn cyfeiriad penodol unrhyw orchmynion llys sirol sydd heb eu talu (gelwir y rhain yn 'ddyfarniadau'), drwy ysgrifennu at Registry Trust Ltd, yn 173 – 175 Cleveland Street, Llundain, W1T 6QR (ffôn: 020 7380 0133) neu drwy ymweld â www.registry-trust.org.uk. Bydd yn rhaid i chi dalu ffi i chwilio am bob enw y mae gennych ddiddordeb ynddo.

Eir ati i chwilio drwy'r Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon ar eich rhan. Cewch wybod beth yw canlyniad y chwiliad.

Cofiwch, hyd yn oed os byddwch chi'n ennill yr achos, nad ydy'r llys yn gwarantu y byddwch chi'n gallu cael yr arian sy'n ddyledus i chi.

Alla'i fforddio mynd i'r llys?

Fel arfer, bydd rhaid i chi dalu ffi i gychwyn eich hawliad. Bydd lefel y ffi'n dibynnu ar y swm rydych chi'n ei hawlio. Os nad yw'r diffynnydd yn talu ar ôl i chi gael dyfarniad, neu os yw'n dweud nad oes arno arian i chi a bod eich hawliad yn mynd yn ei flaen fel achos 'a amddiffynnir' (a wrthwynebir), efallai y bydd rhaid i chi dalu rhagor o ffioedd. Os byddwch chi'n ennill eich achos, bydd y ffioedd hyn yn cael eu hychwanegu at y swm sy'n ddyledus i chi gan y diffynnydd. Efallai hefyd y caniateir rhywfaint o gostau i chi i wneud iawn am golli amser o'r gwaith. Ond ni fydd hyn o reidrwydd yn ddigon i wneud iawn am yr holl arian a gollwyd.

Dan rai amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os ydych chi'n derbyn cymhorthdal incwm, efallai y gallwch ofyn am gael eich esemptio rhag talu ffioedd. Gofynnwch mewn unrhyw lys sirol am gopi am ddim o'r Daflen Ffioedd sy'n rhoi mwy o wybodaeth i chi.

Pa gostau eraill sydd?

Os yw'r person rydych chi'n ei siwio (y 'diffynnydd') yn amddiffyn eich hawliad, efallai y bydd angen i chi gael tystion i ddweud wrth y llys beth ddigwyddodd. Efallai y bydd rhaid i chi dalu eu costau nhw, sef, eu costau teithio i'r llys ac adref a'r arian y bydden nhw wedi'i ennill y diwrnod hwnnw, ond, os enillwch chi, mae'n bosibl y bydd y llys yn dweud wrth y diffynnydd am gyfrannu tuag at y costau hynny.

Efallai hefyd y bydd angen i chi gael adroddiad gan arbenigwr, er enghraifft, meddyg, mecanig neu syrfëwr. Efallai hefyd y bydd angen i chi ofyn i'r arbenigwr hwn ddod i wrandawiad yn y llys i roi tystiolaeth ar eich rhan. Bydd rhaid i chi dalu costau a ffioedd yr arbenigwyr. Ond, os enillwch chi, mae'n bosibl y bydd y llys yn dweud wrth y diffynnydd am gyfrannu tuag at y costau hyn.

Os ydych chi'n hawlio swm penodol o arian, ac os mai unigolyn yw'r diffynnydd sy'n amddiffyn eich hawliad, fe allai eich hawliad gael ei drosglwyddo i lys lleol y diffynnydd. Gallai hyn olygu bod rhaid i chi deithio cryn dipyn i unrhyw wrandawiad a gynhelir. Ond, os enillwch chi'r achos, mae'n bosibl y byddwch chi'n gallu hawlio'ch costau teithio a rhywfaint tuag at golli cyflog y diwrnod hwnnw.

Os nad Saesneg neu Gymraeg yw eich iaith gyntaf, a bod angen cyfieithydd arnoch, ni fydd y llys yn gallu'ch helpu chi i ddod o hyd i un. Bydd rhaid i chi wneud hyn drosoch chi'ch hun a hefyd, bydd rhaid i chi dalu unrhyw ffioedd a godir gan y cyfieithydd.

Os oes gennych dwrnai a'ch bod yn hawlio llai na £5,000, fel arfer bydd rhaid i chi dalu am ei help ef/hi eich hun, hyd yn oed os enillwch chi eich achos.

Gorfodi Dyfarniad. Dylech hefyd gofio, er y gall y llys wneud dyfarniad o'ch plaid (mae hyn yn golygu gorchymyn i'r diffynnydd dalu i chi), **ni fydd** y llys yn cymryd camau fel mater o drefn i sicrhau bod yr arian yn cael ei dalu i chi. Os nad yw'r diffynnydd yn talu, bydd rhaid i chi ofyn i'r llys gymryd camau (a elwir yn 'orfodi eich dyfarniad'), ac mae'n bosibl y bydd rhaid i chi dalu ffi arall am hyn.

Ceir gwybodaeth am orfodaeth mewn cyfres o daflenni y gallwch eu cael o unrhyw lys sirol, neu trwy ymweld â www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Alla'i fforddio'r amser?

Mae llawer o achosion yn rhai nad oes neb yn eu hamddiffyn ac fe luniwyd y drefn hawlio arian (yn enwedig symiau o £5,000 neu lai) er mwyn i chi allu gwneud hyn drosoch chi'ch hun, heb ymddangos yn y llys o gwbl neu ddim ond unwaith ar y mwyaf. Ond cofiwch, os bydd rhywun yn amddiffyn eich hawliad, y bydd angen i chi dreulio amser yn paratoi eich achos. Er enghraifft, bydd rhaid i chi baratoi copïau o'r holl ddogfennau perthnasol neu dreulio amser yn casglu datganiadau gan dystion. Mae'n debyg y bydd gofyn i chi fynd i wrandawiad llys, a hyd yn oed os enillwch yr achos, fe allech chi orfod treulio mwy o amser yn llenwi ffurflenni i orfodi eich dyfarniad.

Fydd angen twrnai arna'i?

Gan amlaf, os ydych chi'n hawlio mwy na £5,000 ac yn enwedig os yw hynny'n cynnwys hawliad am iawndal, mae'n beth doeth ceisio cyngor twrnai. Mewn achos o ddyled syml, er enghraifft, mae'n bosibl na fyddwch chi'n meddwl bod angen ymgynghori â thwrnai.

Hefyd, os yw'r swm rydych chi'n ei hawlio'n £5,000 neu'n llai a bod y diffynnydd yn ei amddiffyn, gallwch fynd â rhywun i'r gwrandawiad llys i siarad ar eich rhan. Gelwir y person hwn yn 'gynrychiolydd lleyg', ac fe all fod yn gymar, yn berthynas, yn ffrind neu'n weithiwr cynghori.

Mae mathau eraill o hawliadau, er enghraifft, hawliadau am anaf personol, yn gallu bod yn fwy cymhleth, ac efallai y byddai'n ddoethach cael rhywfaint o gymorth a chyngor proffesiynol, beth bynnag y bo gwerth eich hawliad.

Cofiwch hefyd bod rhaid i chi brofi eich hawliad. Er mwyn gwneud hyn, bydd gofyn i chi fod â rhywfaint o ddealltwriaeth o sail gyfreithiol eich hawliad a threfniadau'r llys a chyflwyno tystiolaeth, er enghraifft, adroddiad gan feddyg, neu ddatganiadau gan dystion a welodd eich damwain. Hefyd, bydd angen i chi wneud asesiad realistig o faint o iawndal rydych chi'n ei geisio. Fe all arbed amser ac arian i chi ofyn gyntaf i dwrnai neu weithiwr cynghori a yw hi'n werth i chi wneud hawliad ac, os ydyw, sut fyddai'r ffordd orau o baratoi'r hawliad hwnnw, pa dystiolaeth sydd ei hangen arnoch chi a faint o iawndal y dylech chi ofyn amdano.

Os ydych chi'n hawlio ar ran cwmni cyfyngedig, mae'n bosibl y bydd angen i chi gael twrnai i fynd i'r gwrandawiad ar eich rhan. Bydd hyn yn dibynnu ar faint o arian rydych chi'n ei hawlio a pha fath o wrandawiad a gynhelir.

Cychwyn hawliad ar-lein

Os yw gwerth eich hawliad yn llai na £100,000 a bod yr hawliad yn erbyn un neu ddau berson a dim mwy na hynny, gallwch gychwyn eich hawliad ar-lein. Ewch i www.moneyclaim.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.

Rhagor o gymorth a chyngor

Mae taflenni eraill ar gael yn y gyfres hon i'ch helpu os penderfynwch chi gychwyn hawliad. Fodd bynnag, dim ond syniad cyffredinol am beth sy'n debygol o ddigwydd sydd yn y taflenni hyn. Does dim modd iddyn nhw esbonio popeth am reolau'r llys, y costau a'r trefniadaethau a all effeithio ar wahanol fathau o hawliad mewn gwahanol ffyrdd.

Gall staff y llys eich cynghori ynghylch trefniadaethau'r llys, rhoi'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch i chi a'ch helpu chi i'w llenwi. **Ond allan nhw ddim rhoi cyngor cyfreithiol i chi.** Er enghraifft, allan nhw ddim dweud wrthych chi a yw eich hawliad yn un da ai peidio neu gan bwy y dylech chi fod yn hawlio. Mae'n bosibl y gallwch chi gael cyngor cyfreithiol am ddim gan ganolfan gyfraith. Mae'n bosibl hefyd y bydd Canolfan Cyngor Ar Bopeth neu ganolfan cyngor i ddefnyddwyr yn gallu'ch helpu. Byddan nhw hefyd yn gallu dweud wrthych a oes gennych chi'r hawl i gael cymorth cyfreithiol.

Os penderfynwch chi fwrw ymlaen a chychwyn hawliad, darllenwch y daflen **EX302 - Sut i wneud hawliad.** Mae copïau ar gael o unrhyw lys sirol, neu o'n gwefan www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk. Mae cyfeiriad a rhif ffôn eich llys sirol lleol yn y llyfr ffôn dan **'Courts'** neu maent ar gael ar ein gwefan.

Pa gymorth ychwanegol sydd ar gael i ddefnyddwyr y llys sydd ag anabledd?

Os oes gennych anabledd sy'n golygu bod mynd i'r llys neu gyfathrebu'n anodd, cysylltwch â Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid y llys perthnasol. Efallai y bydd yn gallu'ch helpu. Os na all Swyddog Gwasanaeth Cwsmeriaid y llys eich helpu, fe allwch gysylltu â'r Llinell Gymorth Anabledd ar 0800 358 3506 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Gallwch ffonio'r rhif hwn am ddim. Os ydych yn fyddar neu'n drwm eich clyw, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth Minicom ar 0800 212 368.